Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod	24 Tachwedd 2021
Aelod/Swyddog Arweiniol	**Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth ac Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau**
Awdur yr Adroddiad	**Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau**
Teitl	Arolygiaeth Gofal Cymru – Archwiliad Sicrwydd 2021

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau archwiliad sicrwydd Cyngor Sir Ddinbych gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a gynhaliwyd rhwng 28 Mehefin a 2 Gorffennaf 2021. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd oedd adolygu pa mor dda mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn parhau i gynorthwyo a chefnogi oedolion a phlant gyda ffocws ar ddiogelwch a lles.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r gwerthusiad hwn ar y gwasanaethau cymdeithasol a pha mor dda wnaeth yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol er mwyn cadw'r bobl sydd angen gofal a chefnogaeth a'r gofalwyr sydd angen cefnogaeth, yn ddiogel a hyrwyddo eu lles dros gyfnod y pandemig.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried archwiliad sicrwydd yr AGC, y crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant; ac yn ystyried a oes angen unrhyw graffu pellach.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae'r Archwiliad Sicrwydd AGC hwn yn darparu gwybodaeth ar sut wnaeth yr awdurdod lleol berfformio wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol er mwyn cadw pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, yn ddiogel a hyrwyddo eu lles dros gyfnod y pandemig.

4.2. Mae'r llythyr yn darparu crynodeb o'r canfyddiadau a'r blaenoriaethau ar gyfer sicrhau gwelliant. Mae'r meysydd y nodwyd fel rhai sydd angen gwelliant yn unol ag Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a chânt eu hymgorffori o fewn Cynlluniau Busnes Gwasanaeth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Archwiliad Sicrwydd hwn yn darparu persbectif allanol ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd yr ymateb i gyflawni'r camau gwelliant yn cael eu hintegreiddio i'r Cynlluniau Busnes Gwasanaeth. Bydd y gwaith o gyflawni'r rhain yn cael ei reoli o fewn yr adnoddau ariannol presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid yw Asesiad o Effaith ar Les yn ofynnol gan nad yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad a fydd yn arwain at unrhyw newid i staff a'r gymuned ehangach. Bydd AELau yn cael eu cyflawni ar flaenoriaethau unigol os ydyn nhw'n mynnu bod prosiectau'n cael eu cychwyn a/ neu benderfyniadau yn cael eu gwneud.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

8.1. Cynhelir cyfarfodydd ymgysylltu yn rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Penaethiaid Gwasanaeth a'r AGC, sy'n helpu i lywio'r gwerthusiad hwn yn ogystal ag asesu cynnydd drwy gyflawni gwelliant.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyllid sylweddol yn codi o'r adroddiad hwn gan fod y gwasanaeth wedi ymrwymo i gyflawni'r cynlluniau hyn o fewn yr adnoddau ariannol presennol. Gellir dynodi unrhyw ofynion ychwanegol a nodir yn y dyfodol fel rhan o elfen pwysau gwasanaeth ar y broses gyllido flynyddol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â chyflawni argymhellion yr adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Nid oes gofyn am benderfyniad yn yr adroddiad hwn.